**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Gorffennaf 2013**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Dod â Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod i'r Panel Gweithredol i roi sylwadau arno, cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod.

## Y Cefndir

2 O 2010/11 ymlaen, bu'n ofynnol i bob Awdurdod Llywodraeth Leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol. Mae hyn yn disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

## Gwybodaeth

3 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn ynghylch y graddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun. Mae'n cynnwys esboniad ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod wedi monitro effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno, ynghyd ag unrhyw newidiadau sydd yn yr arfaeth yn y cyfnod sydd i ddod.

4 Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei lunio gan y Rheolwr Cyllid dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a’r Clerc. Eleni, roedd hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

5 Roedd yr adolygiad diweddar gan SAC yn argymell y dylai’r Awdurdod sicrhau bod cyfle i drafod a herio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn ei gyhoeddi o fewn y Datganiad o Gyfrifon ym mis Medi.

6 Gwiriodd y Rheolwr Cyllid gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, a gymeradwywyd yn 2011, a rhoddir crynodeb o’r canfyddiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd ynghlwm.

**Argymhelliad**

7 Gofynnir i’r Aelodau gymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13.